

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygiadau sy'n ymwneud ag Isafswm Darpariaeth Refeniw) 2026

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Polisi Cyllid Llywodraeth Leol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygiadau sy'n ymwneud ag Isafswm Darpariaeth Refeniw) 2026.

Jayne Bryant AS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
21 Ionawr 2026

RHAN 1

1. Disgrifiad

- 1.1. Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 ("Rheoliadau 2003") yn darparu'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer yr arferion cyfrifyddu sydd i'w dilyn gan awdurdodau lleol yng Nghymru.
- 1.2. Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygiadau sy'n ymwneud ag Isafswm Darpariaeth Refeniw) 2026 ("y Rheoliadau") yn diwygio Rheoliadau 2003 i ddarparu, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dechrau â 1 Ebrill 2026, fod gan gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ddisgresiwn i wneud isafswm darpariaeth refeniw ("IDR") ond nad yw'n ofynnol iddynt wneud hynny. Mae'r diwygiadau yn darparu, pan fo'r cynghorau hynny yn gwneud IDR, fod rhaid iddynt gyfrifo swm y maent yn ei ystyried yn swm darbodus. Bydd canllawiau atodol i'r canllawiau presennol yn cael eu dyroddi mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol 2026-2027 i ddarparu hyblygrwydd wrth gyfrifo'r hyn sy'n swm darbodus o IDR ar gyfer y flwyddyn ariannol honno.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1 Dim.

3. Y cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Gwneir y Rheoliadau gan ddefnyddio'r pwerau o dan adrannau 21(1) a 123(1)(a) a (2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 ("Deddf 2003"). Mynegir bod y pwerau o dan y Ddeddf honno yn arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Fodd bynnag, mae adran 24 o Ddeddf 2003 yn darparu, o ran cymhwyso'r Ddeddf i Gymru, fod y pwerau i'w harfer gan Weinidogion Cymru.
- 3.2 Mae adran 123(1)(a) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol. Mae adran 123(2) yn rhoi pŵer iddynt i wneud darpariaeth wahanol ar gyfer awdurdodau lleol gwahanol neu ddisgrifiadau gwahanol o awdurdod lleol. Mae'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth wahanol ar gyfer cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yn unig.
- 3.3 Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau ynghylch yr arferion cyfrifyddu sydd i'w dilyn gan awdurdod lleol o dan adran 21(1A) o Ddeddf 2003.
- 3.4 Gwneir y Rheoliadau o dan weithdrefn annilysu'r Senedd yn rhinwedd adran 123(6) o Ddeddf 2003, i'w darllen gyda pharagraffau 30 a 34 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

- 4.1 Diben y Rheoliadau yw rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol wrth osod eu cyllidebau yn 2026-2027.
- 4.2 Pan fo awdurdodau lleol yn ariannu gwariant cyfalaf gyda dyled, rhaid iddynt neilltuo swm o arian bob blwyddyn er mwyn sicrhau y gallant adalu'r ddyled honno. O dan [Reoliadau 2003](#), wrth osod ei gyllideb, mae'n ofynnol i awdurdod lleol neilltuo IDR i adlewyrchu'r gost o fenthycu er mwyn adeiladu neu brynu asedau sydd ag oes gyfyngedig. Er enghraifft, pe bai awdurdod yn benthycu £100m i brynu asedau sydd â hyd oes o 50 mlynedd, gellid disgwyl yn rhesymol i'r IDR a neilltuwyd fod tua £2m - gan adlewyrchu oes yr asedau a sicrhau tegwch rhwng y cenedlaethau. Mae IDR yn gost y mae rhaid iddi gael ei hariannu gan y Gronfa Gyffredinol.
- 4.3 Mae rheoliadau 21 a 22 o Reoliadau 2003 yn nodi bod rhaid i awdurdod lleol godi IDR ar gyfrif refeniw yn ystod blwyddyn ariannol a bod rhaid iddo gyfrifo swm o IDR y mae'n ei ystyried yn swm darbodus. Mae'n ofynnol i awdurdod lleol roi sylw i ganllawiau a gaiff eu dyroddi gan Weinidogion Cymru.
- 4.4 Mewn cysylltiad â'r flwyddyn ariannol sy'n dechrau â 2026-2027, mae'r Rheoliadau yn caniatáu i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol benderfynu a ddylid gwneud IDR yn y flwyddyn ariannol honno ai peidio. Pan fo cyngor o'r fath yn penderfynu gwneud IDR, rhaid iddo gyfrifo swm y mae'n ei ystyried yn swm darbodus, gan roi sylw i ganllawiau statudol a gaiff eu dyroddi gan Weinidogion Cymru. Bydd canllawiau atodol yn cael eu dyroddi yn amlinellu, ar gyfer y flwyddyn ariannol 2026-2027, y caiff cyngor ystyried lefel IDR is nag y byddai'n wir pe bai'r canllawiau gwreiddiol yn cael eu cymhwyso. Bydd y canllawiau atodol hefyd yn nodi'r dull diwygiedig i'w gymhwyso yn y blynyddoedd i ddod, hyd at uchafswm o ddeng mlynedd, i ailgydbwysu'r ddarpariaeth.
- 4.5 Mae gofyniad statudol ar awdurdodau lleol i osod cyllideb gytbwys bob blwyddyn, gan gynnwys IDR. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r pwysau presennol sy'n wynebu awdurdodau lleol o amrywiaeth o ffynonellau yn sgil chwyddiant a phatrymau o ran y galw am wasanaethau, ynghyd â newidiadau sylweddol o fewn grantiau mawr y DU ac ansicrwydd o gylchoedd gwleidyddol. Mae'r hyblygrwydd tymor byr hwn yn lefel y ddarpariaeth IDR a gymhwysir yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol i reoli eu gwaith cynllunio ar gyfer y gyllideb yn y tymor byr a'r tymor canolig. Dewisol yw'r newid hwn, nid gorfodol, a gellir ei ddefnyddio ochr yn ochr â mathau eraill o hyblygrwydd megis defnyddio cronfeydd wrth gefn a chyfarwyddydau cyfalaf yn seiliedig ar amgylchiadau penodol awdurdod lleol unigol. Rhaid i unrhyw newid i bolisi IDR awdurdod lleol gael ei gytuno gan y cyngor llawn fel rhan o'r datganiad IDR blynyddol.

5. Ymgynghori

- 5.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad chwe wythnos gyda rhanddeiliaid proffesiynol penodol gan gynnwys Archwilio Cymru, y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ac awdurdodau lleol gan fod hwn yn newid technegol.
- 5.2 Ar y cyfan, roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi hyblygrwydd ychwanegol dewisol â chyfyngiad amser wrth osod y gyllideb. Pwysleisiodd yr ymatebion y dylai unrhyw benderfyniadau ynghylch newidiadau i IDR fod yn dryloyw, ac y dylai'r cyngor llawn gytuno ar amserlen "ad-dalu" wedi'i chynllunio â chyfyngiad amser i reoli risgiau.

RHAN 2: ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Yr opsiynau

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn cyflwyno dau opsiwn, y status quo a chyflwyno hyblygrwydd ychwanegol â chyfyngiad amser ar gyfer gwaith cynllunio awdurdodau lleol ar gyfer y gyllideb drwy ddiwygio'r gofynion ar gyfer isafswm darpariaeth refeniw ("IDR"). Mae'r opsiynau a ystyriwyd fel a ganlyn:

- ***Opsiwn 1 – Gwneud dim.*** Cadw'r trefniadau presennol.
- ***Opsiwn 2 – Gwneud y Rheoliadau.*** Darparu bod IDR yn ddewisol yn y flwyddyn ariannol 2026-2027.

Costau a manteision

Opsiwn 1 – Gwneud dim

Ni fyddai Opsiwn 1 yn gofyn am unrhyw newid deddfwriaethol. Byddai manteision gwneud dim yn cynnwys cysondeb â'r canllawiau presennol a chod CIPFA. Byddai hefyd yn golygu na fyddai unrhyw effaith andwyol ar genedlaethau'r dyfodol yn sgil gorfod rheoli darpariaeth IDR flynyddol uwch i wneud iawn am unrhyw fwlch a grëwyd gan ddarpariaeth lai neu ddim darpariaeth o gwbl yn 2026-2027.

Yr anfanteision yw bod gan awdurdodau lleol, yn ystod cyfnod o bwysau sylweddol yn sgil chwyddiant a'r galw am wasanaethau, lai o opsiynau i reoli eu diffygion cyllidebol dros gyfnod o amser yn hytrach nag mewn blwyddyn, yn enwedig i'r rhai sy'n dal cronfeydd wrth gefn is. Mae hyn yn golygu y byddai angen i awdurdodau o'r fath ystyried cwtogi eu gwasanaethau neu gynyddu'r incwm a gynhyrchir ganddynt, yn bennaf drwy'r dreth gyngor. Byddai'r dewisiadau hyn yn effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaethau a thalwyr y dreth gyngor, yn y presennol a'r dyfodol.

Opsiwn 2 – Gwneud y Rheoliadau

Opsiwn 2 fyddai gwneud y Rheoliadau i ddarparu hyblygrwydd ychwanegol wrth osod cyllidebau. Mae'r manteision sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn yn cynnwys ystod ehangach o hyblygrwydd i awdurdodau lleol wrth osod eu cyllideb a'u cynlluniau ariannol tymor canolig, gan reoli pwysau yn sgil chwyddiant a'r galw am wasanaethau, ochr yn ochr ag ansicrwydd o gylchoedd gwleidyddol. Mae'r Rheoliadau yn rhoi'r dewis i gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol i beidio â chodi unrhyw IDR yn y flwyddyn ariannol 2026-2027 neu i godi IDR ar lefel yr ystyrir ei bod yn ddarbodus, gan roi sylw i'r canllawiau atodol y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu gwneud. Bydd y canllawiau hynny'n caniatáu dull cyfrifo yn unol â'r canllawiau statudol presennol, neu swm is. Felly, mae'n rhoi hyblygrwydd eang i awdurdodau o'r fath wrth godi IDR, a gall fod yn arbennig o fuddiol i'r awdurdodau hynny sydd â chronfeydd wrth gefn isel. Disgwylir i awdurdodau lleol hefyd reoli newid ym mhroffil refeniw a

chyfalaf un o grantiau mawr Llywodraeth y DU, a gall hyn ddarparu hyblygrwydd ychwanegol ar gyfer y cyfnod pontio cysylltiedig.

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol i awdurdodau lleol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Fodd bynnag, bydd angen iddynt ystyried y tâl IDR sy'n ofynnol dros y cyfnod ailaddasu penodedig y bydd angen iddo gynyddu mae'n debyg, os codir llai o IDR, neu ddim tâl o gwbl, yn y flwyddyn ariannol 2026-2027. Bydd angen iddynt hefyd ystyried effaith newid i IDR ar eu rhaglen gyfalaf a'r costau cysylltiedig yn y dyfodol.

Dewis opsiwn

Ystyrir bod manteision Opsiwn 2 yn gorbwyso manteision Opsiwn 1. Opsiwn 2, felly, yw'r opsiwn a ffefrir gan Lywodraeth Cymru.

Dyletswyddau

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Er bod codi llai o IDR, neu ddim tâl o gwbl, yn 2026-2027 yn gwrthio'r costau i flynyddoedd i ddod, bydd y canllawiau diwygiedig a fydd yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r newidiadau yn gofyn am uchafswm o ddeng mlynedd i ailaddasu'r ddarpariaeth IDR. Mae hyn yn cyfyngu'r effaith ar genedlaethau'r dyfodol ac yn lledaenu'r risg dros nifer o flynyddoedd.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Ni nodwyd unrhyw effaith benodol ar hawliau plant. Mae unrhyw hyblygrwydd cyllidebol a ddefnyddir yn debygol o effeithio'n gadarnhaol ar y gwaith o reoli gwariant ym meysydd addysg a gofal cymdeithasol plant, sef dau o'r meysydd sy'n costio fwyaf i awdurdodau lleol.

Y Gymraeg. Ni nodwyd unrhyw effaith ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg nac o ran trin yr iaith yn gyfartal.

Cydraddoldeb. Ni nodwyd unrhyw effeithiau penodol, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, ar bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig (fel y'i pennir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010). Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gwblhau asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb fel rhan o'r broses o osod eu cyllidebau. Mae'r hyblygrwydd ychwanegol a roddir gan y newid tymor byr i'r Rheoliadau yn rhoi cyfle i awdurdodau lleol i gynllunio eu cyllidebau dros gyfnod hirach, ochr yn ochr â mathau eraill o hyblygrwydd sydd eisoes ar waith. Bydd y gofyniad i gwblhau asesiadau o'r effaith hefyd yn ofynnol ar gyfer cyllidebau yn y blynyddoedd i ddod, pan fydd angen ailaddasu IDR o bosibl.

Y sector gwirfoddol. Ni nodwyd unrhyw effeithiau penodol ar y sector gwirfoddol.

Cyfiawnder. Ni fydd y newidiadau arfaethedig yn cael unrhyw effaith ar y system gyfiawnder.

Asesu'r gystadleuaeth

Ni nodwyd unrhyw effeithiau ar y gystadleuaeth.

Adolygu ar ôl gweithredu

Dyma hyblygrwydd a roddir i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yn y flwyddyn ariannol 2026-2027 i reoli eu gwaith cynllunio ar gyfer y gyllideb. Mae gwaith monitro iechyd ariannol awdurdodau yn cael ei gynnal yn barhaus a bydd unrhyw effeithiau yn cael eu hadolygu fel rhan o'r gwaith monitro safonol hwn.